



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

AR DRYWYDD DYSGU

Dod â buddion i ddysgwyr, rhieni, gofalwyr ac ymarferwyr

CERI MOORCRAFT

Mae Ceri Moorcraft wedi bod yn gyfrifol am ddysgu plant sydd ag anawsterau dysgu dwys a lluosog (ADDLI) yn Ysgol Crownbridge ers mis Ionawr 2020 a chyn hyn bu'n gweithio yn Ysgol Arbennig Ty Gwyn yng Nghaerdydd.

Mae ei wybodaeth a'i arbenigedd ym maes anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn golygu ei fod yn rhywun addas iawn i helpu Llywodraeth Cymru i ddiweddarau ei deunyddiau **Ar Drywydd Dysgu** fel rhan o ddatblygiad Cwricwlwm i Gymru. Yma mae'n siarad am fuddion y deunyddiau sydd newydd eu diweddarau.



RHANNU PROFIAID I DDIWEDDARU'R DEUNYDDIAU

Ar ôl bod yn rhan o'r maes hwn am gymaint o flynyddoedd, roedd yn wych cael cyfle i gyfrannu at adolygu, diweddarau a datblygu'r deunyddiau Ar Drywydd Dysgu.

I mi yn bersonol, roedd yn gyfle i hyrwyddo effaith a buddion cynhwysiant trwy ddulliau chwaraeus gyda phlant prif ffrwd, gan weithio gydag Ysgol Gynradd Gymunedol Woodlands, drwy gynnal sesiynau wythnosol o fewn ystafell ddsbarth yn yr ysgol arbennig, gan weithio tuag at fynd i'r afael â rhwystrau i gynhwysiant. Roeddwn hefyd ynghlwm ag adolygu deunyddiau Cymraeg gan sicrhau cydraddoldeb mynediad a bod yr iaith a ddefnyddir yn addas i'r hyn sydd angen.

Mae'r deunyddiau sydd wedi'u diweddarau yn wych oherwydd eu bod yn pwysleisio'r dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn – mae'r dysgwr wrth wraidd popeth. Mae hefyd ymdeimlad cryf o gynhwysiant sy'n cyd-fynd yn berffaith â'r dyheadau ar gyfer Cwricwlwm i Gymru.

ADEILADU AR Y GORFFENNOL

Mae cynnwys y deunyddiau sydd wedi'u diweddarau yn debyg i'r deunyddiau gwreiddiol ond maen nhw wedi ystyried ymchwil a meddwl cyfredol mewn egwyddorion niwrowyddoniaeth ac addysgeg. Diweddarwyd y llyfryn Canllawiau i alinio camau cynnar datblygiad gwybyddol mewn perthynas â phedwar diben y cwricwlwm a'r themâu trawsgwricwlaidd, y Fframwaith Cynhwysedd Digidol a'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd yn unol â Chwricwlwm i Gymru.

Ar ôl nodi tri llinyn datblygiad – datblygiad gwybyddol, cyfathrebu a rhyngweithio cymdeithasol, a rhyngweithio â'i amgylchedd – gwnaed gwaith i sicrhau bod mwy o ddealltwriaeth o'r meysydd hyn gyda mwy o eglurder yn cael ei gynnig ac iaith hawdd ei defnyddio, er mwyn helpu ymarferwyr, rhieni a gofalwyr fel ei gilydd.



CEFNOGI GYRFA

Er bod y ffocws i raddau helaeth ar y dysgwr, mae cefnogaeth barhaus i ymarferwyr hefyd yn flaenllaw. Mae deunyddiau a modiwlau dysgu proffesiynol, y gellir eu cyrchu trwy Hwb, yn helpu i gynllunio, asesu ac olrhain cynnydd tra bod fideos dysgu proffesiynol ar-lein yn cynnig cefnogaeth ac arweiniad p'un a ydych chi'n athro newydd gymhwyso neu wedi symud i'r maes hwn o swydd addysgu arall yn ddiweddar.

Mae'r iaith glir yn sicrhau bod llai o gamddealltwriaeth wrth gyfathrebu â chydweithwyr neu rieni a gofalwyr, sy'n arwain at lai o bryder a mwy o ymgysylltu; elfen hanfodol yn y maes gwaith hwn.

Y DARLUN MWY

Mae'r ffocws o fewn sector addysg Cymru yn naturiol ar gyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru arloesol a'r hyn sy'n fy nghyffroi yw bod y deunyddiau Ar Drywydd Dysgu hyn yn cael eu datblygu ochr yn ochr ac nid fel endid ar wahân. Mae hyn yn galluogi i addysgu'r rheini sydd ag ADY ac ADDLI gael eu hystyried yn rhan annatod o addysg brif ffrwd – arwydd cadarnhaol iawn i ymarferwyr, rhieni, gofalwyr ac, yn bwysicaf oll, dysgwyr.



hwb.llyw.cymru/cwricwlwm-i-gymru/ar-drywydd-dysgu